

## Sul y Genhadaeth

Nid byd ar wahân i'r byd hwn yw byd Duw, ond ansawdd gwahanol i'r byd hwn – sef bod yn ymwybodol o'r hinsawdd ysbrydol, ymdeimlo â bodolaeth Duw yn ei gread, dathlu'r cariad dwyfol a gwasanaethu eraill yn hytrach na ni ein hunain.

### EMYNAU

**Mae teyrnas Dduw ar y ddaear yn cofleidio pob gwlad a chenedl:**

Duw, teyrnasa ar y ddaear  
 o'r gorllewin pell i'r de;  
 cymer feddiant o'r ardaloedd  
 pellaf, t'wyllaf is y ne';  
 Haul Cyfiawnder,  
 llanw'r ddaear fawr â'th ras.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 246)

**Ynglwm wrth y comisiwn i fynd allan mae'r addewid ei fod gyda ni yn y gwaith:**

Cofiwn am gomisiwn Iesu  
 cyn ei fyned at y Tad:  
 “Ewch, pregethwch yr Efengyl,  
 gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad.”  
 Deil yr Iesu eto i alw  
 yn ein dyddiau ninnau nawr;  
 ef sy'n codi ac yn anfon  
 gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.

John Roberts (*Caneuon Ffydd*: 259)

**Mae pob cenhadaeth yn golygu changu gorwelion a helaethu terfynau:**

Helaetha derfynau dy deyrnas  
 a galw dy bobol ynghyd,  
 datguddia dy haeddiant anfeidrol  
 i'r eiddot, Iachawdwr y byd;  
 cwmp anghrist, a rhwyga ei deyrnas,  
 O brysied a deued yr awr,  
 disgynned Jerwsalem newydd  
 i lonni trigolion y llawr.

Morgan Rhys (*Caneuon Ffydd*: 264)

### **Yn ysbryd yr Arglwydd awn ymlaen i gyhoeddi'r newyddion da:**

Mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf fi,  
 ei law a'm tywys am ymlaen;  
 danfonodd fi i rannu'r newydd da  
 a seinio nodyn gobaith yn fy nghân.

Peter M. Thomas (*Caneuon Ffydd*: 279)

### **Rwyt ti efo ni ymhob cenhadaeth yn y byd:**

Ti, Arglwydd, fu'n dywysydd  
 ar hyd blynyddoedd oes,  
 yn gwmni ac yn gysur,  
 a'th ysgwydd dan ein croes:  
 diolchwn am bob bendith  
 fu'n gymorth ar y daith,  
 anoga ni o'r newydd  
 i aros yn dy waith.

Denzil Ieuan John (*Caneuon Ffydd*: 826)

### **Boed i olau'r groes lewyrchu i'r parthau tywyllaf:**

Aed golau'r groes a'r nefol ddydd  
 drwy wledydd daear lydan,  
 a phrofer rhin Efengyl wiw  
 yn allu Duw ei hunan;

doed holl genhedloedd daear las  
 i gyd-ddyrchafu baner gras  
 a dymchwel teyrnas Satan.

J. T. Job (*Caneuon Ffydd*: 855)

## GWEDDIAU

### **Nid tasg un diwrnod yn unig yw cenhadu ond gwaith oes:**

Diolch fod gyda ni ddydd wedi ei neilltuo i gofio am y gwaith cenhadol, ac eto sylweddolwn nad oes modd cyfyngu'n meddwl amdano i'r un diwrnod. Arwain ni yn ein haddoliad heddiw i weld o'r newydd ehangder a phwysigrwydd y genhadaeth. Y neges y mae'n rhaid ei chyhoeddi yn gyson a'r gwaith nad yw byth yn darfod.

Gobeithio y bydd ein cofio ni heddiw yn ein helpu ni i weld pob dydd yn gyfle i genhadu. Amen.

Robin Samuel

### **Tasg yr eglwys ymhob cyfnod ydi helpu dyn yn ei angen:**

Arglwydd, fe ddest ti â'r genhadaeth atom mewn modd arbennig iawn yn Iesu Grist, gan bregethu'r newydd da i dlodion a chyhoeddi rhyddhad i garcharorion, adferiad golwg i ddeillion a pheri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd. Helpa dy Eglwys heddiw, yn ei chenhadaeth hi, i gofio hynny. Wrth ymwneud â'r byd yn ei anobaith a'i anghyfiawnder, a phobl mewn dioddefaint a phoen, helpa ni i rannu'r iachawdwriaeth gyflawn sydd yn Iesu Grist, y newydd da sy'n diwallu pob angen ac yn cyflenwi pob diffyg. Amen.

Robin Samuel

### **Nod y Cristion ydi gwasanaethu ei gyd-ddyn, pw y bynnag yw:**

Rho yn ein calon yr awydd i'th wasanaethu di a'r rheiny sydd o'n hamgylch. Cynorthwya ni i fanteisio ar bob cyfle i siarad, i weithredu a bod yn ffyddlon i'n ffydd a'n cred yn yr Arglwydd Iesu Grist. Gwasgara

ein hamheumon, cadarnha ein ffydd ac ysbrydola ni i gyflawni gweithredoedd mawr yn dy enw di, drwy gyfrwng yr efengyl. Amen.

Graham Floyd

### **Cenhadon ydym oll i Iesu Grist:**

Diolch i ti, Arglwydd,

am y rhai fu'n ufudd i'th orchymyn  
ac a fentrodd i barthau pell a dieithr  
i fynegi dy wirionedd mewn gair a gweithred –  
apostolion, saint a chenhadon,  
efengylwyr, athrawon a meddygon.

Gwna ninnau'n barod i gael ein hanfon,  
ac i ymateb i alwad ac i antur y deyrnas. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

### **Mae'r gwaith o genhadu yn enw Iesu mor benagored ac mor ddi-ben-draw:**

Diolch i ti, Arglwydd,

am wasanaeth dy eglwys i'r byd:  
am ei gwaith addysgol mewn ysgolion a cholegau;  
am ymdrechion meddygon a gweinyddesau,  
yn iacháu cleifion ac yn dysgu gwyddor glendid;  
am y rhai sy'n bwydo'r newynog a'r anghenus  
ac yn dysgu'r tlawd i drin y tir.

Gwna ni'n fwy parod i estyn iddynt  
ein cymorth a'n cefnogaeth. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

### **Yn ein cyfnod ni galw eto rai i rannu'r newyddion da. Beth amdanaf fi?**

Mawrygwn dy enw fod yr Efengyl wedi bod yn fodd i ddwyn eneidiau lawer i ryddid a llawenydd, ac yn fodd i ddwyn daioni diwylliant llawer cenedl i wasanaethu dy deyrnas.

Galw eto, O Dad, rywrai fydd yn barod i fynd â'r newyddion da i'r rhai sydd o hyd mewn tywyllwch, a gwna ni oll yn ddeiliaid teilwng o'r deyrnas, ac yn genhadon cymwys iddi. Amen.

C. M. Bowen

## **ADNODAU**

### **Comisiwn olaf Iesu oedd gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd ynghyd â'i addewid o'i agosatrwydd ar hyd y daith:**

Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.

Mathew 28: 19–20

### **Mae'r genadwri i Jona yn ymestyn yn lletach na ffiniau cenedl:**

Daeth gair yr ARGLWYDD at Jona fab Amittai, a dweud, “Cod, dos i Ninefe, y ddinas fawr, a llefara yn ei herbyn; oherwydd daeth ei drygioni i'm sylw.”

Jona 1: 1–2

### **Y mae pob cenhadaeth Gristnogol yn cynrychioli Iesu Grist:**

Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi â Duw.

2 Corinthiaid 5: 20

### **Tasg fesul dau oedd cenhadaeth i ddisgyblion Iesu a deisyfwn ninnau gael ein hanfon gan fod y cynhaeaf yn fawr:**

Dywedodd wrthynt, “Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar arglwydd y cynhaeaf i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.”

Luc 10: 2

## **Estyn ei law i'w elyn wnaeth y Samariad a dyrchafwyd ef yn arwr:**

Meddai ef, “Yr un a gymerodd drugaredd arno.” Ac meddai Iesu wrtho, “Dos, a gwna dithau yr un modd.”

Luc 10: 37

## **DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Yn llawn o'r Ysbryd, cychwynnodd Iesu ar ei genhadaeth gyda'i bobl ei hun, yn ei gynefin ei hun, yn ei gynulliad ei hun ar y seithfed dydd. Mae'r maes yn barod a holl arfogaeth Duw o'i blaid. Ar garreg y drws y mae dechrau.

Nod cenhadaeth Iesu oedd trawsffurfio'r unigolyn ac yn sgil hyn y gymdeithas gyfan.

Er nad trwy weithredoedd da y mae dyn yn cael ei gyfiawnhau yng ngolwg Duw, eto y prawf o gywirdeb a dilysrwydd ffydd yw'r gweithredoedd sy'n deillio ohoni.

Y mae credu yng nghariad Duw yn esgor ar gariad tuag at gyd-ddyn.

Yr ydym i garu a gwasanaethu eraill oherwydd fod Crist ei hun yn ein cyfarfod yn ein cyd-ddynion.